**Colli clyw amledd uchel**

Mae'r math yma o golli clyw yn gamarweiniol iawn. Gall y plentyn ymddango i glywed yn iawn, ond yn wael yn neall beth sy'n cael ei ddweud.O ganlyniad mae tybiaeth bod anhawster dysgu ar y plentyn. Bydd anhawster yn codi os nad yw'r broblem yn cael ei deall ac nad yw'r plentyn yn derbyn cefnogaeth ddigonol.

Gall plentyn gyda clyw arferol glywed seiniau isel,canolig ac uchel. Er mwyn deall lleferydd mae angen yr ystod lawn yma ar blentyn.

Heb declyn clyw byddai plentyn gyda anhawster clyw ond yn clywed sain amledd isel, sain amledd canolig gyda anhawster a ddim yn clywed sain amledd uchel o gwbl.

- Pan fo pobl yn siarad dim ond mymblian o seiniau aneglur a glywir. Mae'n anodd codi a deall ystyr yr hyn sy'n cael ei ddweud.

- Pan fo'n annodd clywed eich llais eich hun a dynwared yr hyn mae eraill yn ddweud mae'n annodd iawn felly dysgu siarad.

Er mwyn gwneud ystyr a deall gair rhaid I blentyn hefyd glywed y seiniau amledd uchel.Achosir cymhlethdod pan na chlywir y seiniau hyn.Felly gall plentyn sydd a chlyw amledd uchel coll dreulio cymaint â 60% or amser yn dyfalu.

Dyw hi ddim yn hawdd dyfalu. Nid cwestiwn o glywed rhai geiriau a cheisio dyfalu y cyd destu y geiriau coll yw hi.Mae'n bosib bod angen dyfalu pob gair mewn brawddeg a cheisio penderfynu os yw'r geiriau yn gwneud synwyr fel datganiad neu gwestiwn. Gall rhai plant fod yn dda iawn am ddyfalu yn synhwyrol.

Gweler er enghraifft yr esiampl hon yn Saesneg: Mae'r athro/athrawes yn dweud, 'place a cross in the square'. Mae'r plentyn yn clywed, 'ay-e-o-i-air'.

Rhaid i'r plentyn benderfynu allan o restr o opsiynau posib:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Trace | | dot | | pair |
| Place | a | spot | in a | pear |
| Make | the | lot | the | hair |
| Take | | cross | | where |
| Lay | | got | | stair |
| | | | | square |

Gellir lleddfu yr anhawster hyn i raddau trwy declynau clyw penodol.

Mae plant yn dysgu siarad trwy ddynwared y synau o'u cwmpas, felly os nad yw'r sain a glywant yn gyflawn, fydd ei lleferydd ddim yn gyflawn.

Bydd cytseiniad ar goll neu yn swnio yn aneglur neu'n od. Bydd rhythm y lleferydd yn ymddangos yn rhyfedd achos bod peth o'r iaith heb ei chlywed a wedyn bydd patrwm anneglur i'r plentyn i'w ddynwared. Bydd llawer o blant gyda'r math yma o ddiffyg clyw angen cymorth arbenigol gyda'u lleferydd.

**Awgrymiadau defnyddiol i athrawon**

- Ceisiwch osod y plentyn byddar mewn lleoliad y gall weld a chlywed chi a'r dosbarth.

- Ceisiwch sicrhau bod y plentyn yn gwisgo ei declyn clyw.

- Ceisiwch sicrhau eich bod yn cael sylw y plentyn cyn siarad.

- Byddwch yn ymwybodol o eirfa newydd a gyflwynir.

- Ysgrifennwch eiriau allweddol ar y bwrdd gwyn - ond peidiwch siarad pan fo'ch cefn i'r plentyn.

- Peidiwch siarad yn rhy hir.

- Peidiwch newid y testun heb gynnwys y

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

**MERTHYR TYDFIL COUNTY BOROUGH COUNCIL**

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

# COLLI CLYW AMLEDD UCHEL

**ADRAN DYSGU**

plant.

- Wrth drafod, ceisiwch ailadrodd ymatebion y plant neu gwestiynau y gallai y plentyn byddar fod wedi ei golli.

- Gwnech yn siwr eich bod yn cynnwys y plentyn byddar yn y gwersi, peidiwch a bod of neu cynnwys, ond peidiwch â tynnu sylw atynt chwaith.

- Peidiwch sefyll o flaen y ffenest gan bydd hyn yn rhoi y wyneb yn y cysgod.

- Ceisiwch beidio cerdded o gwmpas pan yn siarad.

- Pan yn defnyddio cymorth radio: -
  - ✓ Peidiwch rhwystro y ddolen ar y meicroffôn gan ei fod yn achosi ymyraeth.
  - ✓ Cofiwch ddiffodd y meicroffôn pan yn siarad gyda plant eraill.

**Contact number**


Learning Department
Civic Centre
Merthyr Tydfil
CF47 8AN
Tel: - 01685 724642


**Gwefanau Defnyddiol a Mudiadau**

www.rnid.org.uk
www.ndcs.org.uk
www.batod.org.uk
www.cafamily.org.uk
www.deafeducation.org.uk
www.sense.org.uk
www.bda.org.uk
www.signcommunity.org.uk
Merthyr Talking Hands-01685384198

**Cyhoeddiadau Defnyddiol**

Promoting literacy in deaf pupils
Promoting numeracy in deaf pupils
**NDCS**
Deaf Friendly Nurseries
Deaf Friendly Schools
Deaf Friendly Teaching
Effective inclusion of deaf pupils into mainstream
Promoting access to the National Curriculum for deaf pupils
Effective early intervention for deaf children O.5 and with families